e

# Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru
# Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol
# Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mai 2018
# Cyffordd Llandudno

## Yn bresennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llandudno** | | | |
| Janine | Edwards | JE | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Elen | Hughes | EH | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Glyn | Jones | GJ | Llywodraeth Cymru |
| Mari | Jones | MJ | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Andrew | Stephens | AS | Uned Ddata Cymru |
| Nia | Wyn Jones | NW | Cyngor Gwynedd |
| James | Thorburn | JT | Cyngor Sir Ceredigion |
| **Fideoalwad Parc Cathays** | | | |
| Vicki | Doyle | VD | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili |
| Leanne | John | LJ | Dinas a Sir Abertawe |
| Paul | Jones | PJ | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Steve | King | SK | Dinas a Sir Abertawe |
| Sue | Leake | SL | Llywodraeth Cymru |
| Ann-Marie | McCafferty | AM | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Duncan | McKenzie | DM | Uned Ddata Cymru |
| Jenny | Murphy | JM | Uned Ddata Cymru |
| Simran | Vaja | SV | Llywodraeth Cymru |
| Tony | Whiffen | TW | Llywodraeth Cymru |
| **Fideoalwad Titchfield** | | | |
| Sue | Barton | SB | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |

## Ymddiheuriadau

| | | |
|---|---|---|
| Phillip | Barlow | Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Hywel | Butts | Llywodraeth Cymru |
| Sioned | Cardew-Richardson | Estyn |
| Richard | Cardwell | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Chris | Clarke | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Fiona | Clay-Poole | Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot |
| Brett | Davis | Heddlu De Cymru |
| Liam | Evans | Banc Datblygu Cymru |
| Martin | Jennings | Comisiwn y Cynulliad |
| Helen | Jones | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| Geraint | Morgan | Cyngor Sir Powys |
| Sian | Price | Banc Datblygu Cymru |
| Lesley | Rees | Cyngor Sir Gaerfyrddin |
| Yuan | Shen | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Russell | Watts | Cyngor Bro Morgannwg |
| Andy | Wilson | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen |
| Lowri | Wyn Francis | Cyngor Gwynedd |

| 1 | **Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau** | |
|---|---|---|
| | • Agorodd GJ y cyfarfod Llandudno, gan sicrhau bod y fideoalwad i Gaerdydd yn gweithio'n ddigonol | |
| 2 | **Nodiadau'r cyfarfod diwethaf a diweddariad ar bwyntiau gweithredu** | |
| | • Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol<br>• Cam Gweithredu 1: Tîm NSW yn ymwybodol o hyn<br>• Cam Gweithredu 2: Rhoddwyd y newyddion diweddaraf yn y diweddaraf misol ar yr uned ddata pan ganslwyd y cyfarfod blaenorol<br>• Cam Gweithredu 3: Mae JT wedi bod i rai cyfarfodydd ynghylch data twristiaeth oedd yn helpu cydweithwyr Croeso Cymru i egluro eu data; gwella'r broses o gasglu holl ddata llety twristiaid yn cynnwys data sy'n bwydo i'r model STEAM<br>• Cam Gweithredu 4: Rhoes JM anogaeth i Awdurdodau Lleol siarad yn fwy rhydd gyda Data Cymru ynglŷn â materion cyfathrebu<br>• Cam Gweithredu 5-8: Cwblhawyd<br>• Cam Gweithredu 9:Yr arolwg wedi'i anfon i bobl ymateb i opsiynau ar gyfer cwestiynau cymwysterau yn y cyfrifiad<br>• Cam Gweithredu 10: dim sylwadau | **Cam Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon diweddariad blaenorol yr Uned Ddata/Data Cymru unwaith eto**<br><br>**Cam Gweithredu: JT i gysylltu â grŵp ymchwil twristiaeth i ofyn iddynt wneud nodyn i'r Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol ar y gwaith y maent yn ei wneud** |
| 3 | **Adolygu papurau gwybodaeth** | |
| | Cylchlythyr Ystadegau: Llywodraeth Cymru: Codwyd nifer o faterion:<br><br>• Ni fydd data Dangosydd blynyddol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn cael ei ddiweddaru yn 2018<br>• Yr arolwg o amodau tai wedi'i gwblhau a nifer targed o archwiliadau wedi'u gwneud<br>• O ran y nodyn ynghylch data ôl-ddyledion rhent tai cymdeithasol, mae ystadegwyr LIC yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol ynglŷn â'r hyn y maent yn adrodd ac yn cynnig unrhyw gyfarwyddyd ar gyfer adrodd cydlynol<br>• Nododd JE fod cyfarfod wedi'i gynnal gyda LIC i drafod materion yn ymwneud â pharatoi a diweddaru amcangyfrifon o anghenion a'r galw am dai. Cynhelir y cyfarfod nesaf i drafod anghenion a'r galw am dai ar 22 Mai<br><br>Y Diweddaraf ynghylch Demograffeg:<br><br>• Cafwyd peth trafodaeth am ddigwyddiadau ONS diweddar ar y Cyfrifiad (Digwyddiadau ymgynghori ar Ddylunio Cynnwys Allbwn y Cyfrifiad a Fforwm Polisi Cyhoeddus ONS)<br>• Lleisiodd Aelodau eu gwahanol safbwyntiau am y digwyddiadau penodol yr oeddent wedi eu mynychu<br>• Gwahanol safbwyntiau am gynigion ar gyfer allbynnau'r Cyfrifiad yn cynnwys rhai aelodau'n gadarnhaol ynglŷn â hyblygrwydd dull ONS er, yn gobeithio am dablau mwy safonol a gwell meta data, rhai'n awyddus i allu parhau i ddefnyddio SASPAC ar gyfer | **Cam Gweithredu: SL i adrodd yn ôl i'r grŵp am y cyfarfod anghenion a'r galw am dai yng nghyfarfod nesaf Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol**<br><br>**Cam Gweithredu: SL i baratoi Log Materion Cyfrifiad ar gyfer defnyddwyr Cyfrifiad Cymru a** |

| | | |
|---|---|---|
| | canlyniadau Cyfrifiad 2021 ac eraill yn cydnabod bod defnydd eang o ddata Cyfrifiad (yn cynnwys, er enghraifft, ar gyfer ymrannu e.e. trwy ACORN)<br>• Dywedodd JE fod angen mwy o wybodaeth am dai haf, ail gartrefi a pharciau carafanau yn yr allbynnau safonol ar gyfer 2021<br>• Er bod croeso i'r dull rhannu hyblyg, nodwyd y byddai angen cynorthwyo defnyddwyr nad oeddent yn arbenigwyr i egluro pam fod cyfansymiau'n wahanol ar draws gwahanol dablau.<br>• Siaradodd GJ mewn digwyddiad polisi cyhoeddus ONS diweddar a chyfeiriodd at y ffaith y gellid dadlau bod data'r cyfrifiad yn bwysicach yng Nghymru oherwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gofynion cynlluniau ac asesiadau Llesiant. Byddai'n annog aelodau (a'u cydweithwyr) i gyflwyno eu safbwyntiau i ONS ar faterion o ddiddordeb i ddefnyddwyr y cyfrifiad yng Nghymru i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn gryf gan ONS<br>• Awgrymodd GJ y dylai tîm ystadegau LIC lunio rhestr o brif faterion ar gyfer defnyddwyr Cyfrifiad Cymru (Log Materion), yn adlewyrchu mewnbwn gan wahanol grwpiau cyswllt i fonitro ymateb ONS i'r materion hynny<br><br>Y diweddaraf ynghylch yr Uned Ddata:<br><br>• Tynnodd JM sylw at gynllun strategol Data Cymru a oedd wedi'i gyhoeddi ac at lansio Hwb Data y 3ydd Sector (paratowyd ar gyfer WCVA)<br>• Roedd JM wedi trafod data agored gyda LIC; bwriad Data Cymru i gyhoeddi cynllun data agored fel rhan o'r cynllun strategol<br>• Cyhoeddwyd Arolwg Ymgeiswyr Etholiadau Lleol ar 2 Mai a dylai pob ALl fod wedi cael eu canlyniadau'n ôl<br>• Cyfeiriwyd at waith diweddar ar gyfer cyrsiau polisi cymdeithasol i israddedigion ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd hwn yn cynnwys darlithoedd ynglŷn â sut i ddefnyddio data i gael effaith ar ddatblygu polisi – bydd cwrs newydd ar lunio polisïau'n cael ei gyflwyno<br>• Dechreuwyd trafodaeth gan AC ar argaeledd data perfformiad ysgolion lleol yn y dyfodol yn sgil ymgynghoriad diweddar LIC ar y cynnig i roi'r gorau i gyhoeddi'n rheolaidd ddata asesiadau athrawon a data Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol oedd yn is na'r lefel cenedlaethol<br>• Nododd GJ nad oedd yr ymateb i'r ymgynghoriad wedi'i gyhoeddi eto, ond nododd hefyd nad yw'n effeithio ar Gyfnod Allweddol 4<br>• Bydd yr holl ddata'n dal i gael ei gasglu a bydd gan ALl fynediad at eu data eu hunain<br>• Gofynnwyd sut y dylid defnyddio canllawiau ynglŷn â gosod targedau pan nad oedd data'n cael ei gyhoeddi. Cytunwyd y dylid gwahodd adain polisi addysg i'r cyfarfod nesaf.<br><br>Arolwg Cyflwr Tai Cymru:<br><br>• Dim sylwadau | **cheisio mewnbwn gan Gydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol a grwpiau cyswllt eraill**<br><br>**Cam Gweithredu: Bydd GJ yn anfon diweddariad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau i gyhoeddi'n rheolaidd ddata am asesiadau athrawon ysgol sy'n is na'r lefel genedlaethol a gwahodd rhywun i'r cyfarfod i drafod hyn.**<br><br>**Ymateb: Gellir dod o hyd i hyn yma** |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Teclyn Data Explorer ar gyfer data'r farchnad lafur** | |
| | Rhoddwyd cyflwyniad gan James Carey ar y teclyn gwybodaeth marchnad lafur (LMI) rhyngweithiol ar anghenion sgiliau<br>• Mae sefydliadau Addysg Bellach a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn defnyddio'r teclyn hwn i edrych ar ddata a llunio ardaloedd daearyddol<br>• Os ydynt yn ymwybodol o gyflogwyr newydd mewn ardal, gallant eu cynnwys mewn amcanestyniadau a gwneud addasiadau i gyfateb â'r galw<br>• Mae'r teclyn yn defnyddio gwybodaeth o CVs ar-lein a sgiliau angenrheidiol mewn hysbysebion swyddi<br>• Mae proses gaffael ar y gweill yn gwahodd ceisiadau i ddatblygu'r system er mwyn ei chyflwyno ym mis Gorffennaf<br>• Holodd VD a fyddai'n bosibl sicrhau bod gwybodaeth leol ar gael yn gyhoeddus gan ei bod yn anodd ar hyn o bryd cael gwybodaeth leol ar hyn ar gyfer cynlluniau Llesiant<br>• Mewn ymateb dywedodd JC fod cyllid ar gael am flwyddyn a'u bod yn ystyried opsiynau trwy gaffael, dywedodd JT fod yn rhaid i ddata fod ar gael ar y lefel isaf, fwyaf manwl gan nad yw symudedd pobl mewn rhanbarthau'n adlewyrchu hyn, er dywedodd VD fod angen cynnwys ardaloedd teithio i'r gwaith<br>• Dywedodd GJ ei fod yn deall y galw am ddata ardal fach, ond dylid dadansoddi'r marchnadoedd llafur yn unol â'r ddaearyddiaeth economaidd briodol<br>• Bydd JC yn rhoi cyflwyniad yn y cyfarfod nesaf | **Cam Gweithredu: JC i roi diweddariad ar gynnydd y teclyn LMI mewn cyfarfod yn y dyfodol** |
| **5** | **Llefydd Llewyrchus** | |
| | Cyflwynodd a dangosodd Andrew Stephens y mynegai Llefydd Llewyrchus a lansiwyd ar ddiwedd Ebrill.<br>• Cyhoeddwyd mynegai Lloegr yn Chwefror 2018 a dangosodd bod potensial i weithio ar lefel Cymru (peilot Gwent)<br>• Mae mynegai Llefydd Llewyrchus yn rhoi sgôr ar gyfer yr ardaloedd lleol; nid yw'n gallu cymharu â Lloegr ac mae'n ategu mesurau eraill yn hytrach na'u disodli<br>• Mae'n cynnwys 55 o fesurau a 3 dimensiwn (amodau ardal, Cydraddoldeb a Chynaliadwyedd)<br>• Ar hyn o bryd nid yw disgrifiadau dangosyddion ar gael ar y wefan, ond byddant ar gael yn y dyfodol<br>• Eglurodd JM y fethodoleg y tu ôl i'r mynegai (dosbarthu a safoni cyffredinol ar raddfa o 0-10). Yn gyffredinol mae'r dangosyddion mewn dimensiwn yn gyfartal o ran pwysoli.<br>• Bydd JM yn ystyried ffyrdd posibl i ddefnyddio cymariaethau a chanfod ffyrdd i hwyluso hyn<br>• Mae datblygu'r teclyn wedi tynnu sylw at fylchau o ran data ac mae datblygiadau pellach ar y gweill. Felly bydd mwy o ddangosyddion, dywedodd JE y bydd y teclyn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â gwaith MALIC<br>• Ceir diweddariad ym Mawrth 2019 | **Cam Gweithredu: AS i anfon rhestr o ddangosyddion i'r grŵp**<br><br>**Cam Gweithredu: AS eisiau adborth ar sut i ddefnyddio mynegai Llefydd Llewyrchus a sut y gellid ei wella** |
| **6** | **Rhannu Gwybodaeth** | |
| | Gweler Unrhyw Fater Arall | |

| | | |
|---|---|---|
| **7** | **Adborth ar Adroddiad Arolwg o Lesiant Cymru** | |
| | Rhoddodd GJ drosolwg o hyn:<br>• Cyhoeddwyd adroddiad blynyddol cyntaf Llesiant Cymru ym Medi 2017, cyhoeddir y nesaf ym Medi 2018.<br>• Nid oes bwriad i wneud newidiadau i'r Dangosyddion Cenedlaethol sydd ynddo ond gwahoddir barn am y Dangosyddion Cenedlaethol a'r dangosyddion cyd-destunol a ddefnyddiwyd.<br>• Mae adborth o'r arolwg defnyddwyr ar y cyfan yn awgrymu bod yr adroddiad yn hawdd ei ddefnyddio ond mae jargon mewn mannau.<br>• Mae croeso i ymatebion pellach a bydd crynodeb o'r holl adborth yn cael ei rannu ymhen ychydig o wythnosau. | |
| **8** | **Data Economaidd a'r Farchnad Lafur** | |
| | Cyflwyniad gan Mark Pont:<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddata economaidd yn cael ei ddarparu gan ONS.<br>• Cyhoeddir ystadegau economaidd drwy StatsCymru a NOMIS ond ystyrir datblygu allbynnau mwy rhyngweithiol e.e. PowerBI.<br>• Targedir twf economaidd ar naw prif sector yn y Cynllun Gweithredu Economaidd tra bod y sail ar gyfer ystadegau economaidd yn symud o 4 rhanbarth i 3.<br>• Gwahoddwyd barn ar anghenion defnydd ar gyfer data Economaidd a'r Farchnad Lafur yng Nghymru<br>• Ystyriodd AM pa ddangosyddion economaidd y dylai awdurdodau lleol eu defnyddio yn dilyn newid mewn polisi er mwyn rhoi'r ffocws ar ffyniant yn hytrach na mynd i'r afael â thlodi<br>• Tynnwyd sylw at amseru anghyfatebol allbynnau o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APS) trwy StatsCymru a NOMIS. Dywedodd GJ mai'r rheswm am hynny oedd bod blaenoriaethau LIC ac ONS yn wahanol ac y byddai rhesymoli'n bosibl yn y dyfodol.<br>• Ymysg gwelliannau eraill a awgrymwyd oedd lefelau sicrwydd ar gyfer amcanestyniadau APS a gwell cyfeirio rhwng StatsCymru a'r tudalennau ystadegau ar brif wefan LIC.<br>• Gofynnodd MP am unrhyw adborth pellach drwy ohebiaeth. | **Cam Gweithredu: MP i anfon cyswllt i'r Cynllun Gweithredu Economaidd** |
| **9** | **Y Diweddaraf am MALIC** | |
| | Cyflwyniad gan Nia Jones:<br>• Mae'r tîm wedi cynyddu gweithgaredd i godi ymwybyddiaeth o MALIC<br>• Ni fydd cyfran 2018 o ddata dangosyddion yn bennaf oherwydd newidiadau i ddangosyddion incwm a chyflogaeth yn sgil cyflwyno'r Credyd Cynhwysol<br>• Cyflwynwyd yr amserlen ar gyfer MALIC 2019. Y pedair blaenoriaeth ar gyfer y rhifyn nesaf yw:<br>    o Data o ansawdd uchel ar gyfer ardaloedd bach<br>    o Mwy o gymorth ar gyfer defnyddwyr technegol<br>    o Ehangu'r pŵl defnyddwyr<br>    o Mwy o weithgaredd codi ymwybyddiaeth<br>• Gobeithio hefyd y bydd modd defnyddio setiau data newydd a | |

| | | |
|---|---|---|
| | rhai a ddatblygir o'r newydd yn y Mynegai newydd h.y.:<br>o Adnodd Dadansoddi'r Stoc Tai/ Arolwg Cyflwr Tai Cymru<br>o Setiau data incwm a chyflogaeth cysylltiedig gan yr Adran gwaith a Phensiynau<br>o Data mynediad band eang<br>o Dangosyddion Cyfnod Sylfaen<br>• Bydd yr ymgynghoriad ar ddangosyddion arfaethedig ar gyfer MALIC yn dechrau yn Hydref 2018.<br>• Gwnaeth JM sylw am werth y data dangosyddion blynyddol<br>• Gwnaed rhai sylwadau a fydd yn cael eu hystyried o fewn cynlluniau dosbarthu e.e. ar gyfarwyddyd i egluro newid ac ar ddarparu data rhifiadur ac enwadur i allu cyfrifo mewn ardaloedd daearyddol ansafonol eraill | |
| **10** | **Y Diweddaraf am y Cyfrifiad** | |
| | Rhoddwyd cyflwyniad gan Susan Barton yn ONS trwy fideoalwad:<br>• Mae gwaith sylweddol ar y gweill ar gyfer Cyfrifiad 2021 yn cynnwys:<br>o Yr ymgynghoriad ar allbynnau'r Cyfrifiad.<br>o Y Papur Gwyn a gyhoeddir yn Hydref 2018.<br>o Cynlluniau ar gyfer ymarfer mewn 4 ardal brawf yn 2019.<br>o Cwblhau'r ffurflen ar-lein yn Gymraeg gan ragweld cyfradd gwblhau ar-lein gyffredinol o 75 y cant.<br>• Yn dilyn cwestiwn gan VD eglurwyd na fyddai data am siaradwyr Cymraeg yn Lloegr yn cael ei gasglu<br>• Nifer yr ystafelloedd gwely nid nifer yr ystafelloedd fesul annedd a fyddai'n cal ei gasglu ar gyfer cyfrifo gorboblogi. Mae ONS yn awyddus i gael cymorth awdurdodau lleol i weithio gyda grwpiau strategol a chefnogi grwpiau poblogaeth penodol i gwblhau'r ffurflenni ar-lein. Cafwyd peth trafodaeth am wahoddiad ONS i ALI enwebu Swyddogion Cyswllt Cyfrifiad. Bydd SB yn darparu copi o lythyr gwahoddiad i ALI ar gyfer aelodau'r Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol<br>• Mae ONS hefyd yn chwilio am straeon da ynglŷn â sut mae'r cyfrifiad wedi'i ddefnyddio i lunio cymunedau. Mewn ymateb dywedodd GJ y byddai'n dweud sut yr oedd data'r cyfrifiad wedi'i ddefnyddio yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.<br>• Hefyd cynhelir Cynhadledd Data Integredig 2018 (IDC 2018) ar 9-10 Gorffennaf ym Mhrifysgol Surrey; bydd SB yn anfon manylion ymlaen ac yn ystyried a fydd yn bosibl ffrydio'r gynhadledd yn fyw. | **Cam Gweithredu: Gwahoddwyd Aelodau i ddarparu unrhyw straeon da am ddefnyddio data'r Cyfrifiad yn y gorffennol i ONS**<br><br>**Cam Gweithredu: SB i ddarparu copi o lythyrau i Awdurdodau Lleol ynghylch Swyddogion Cyswllt Cyfrifiad i'w dosbarthu i aelodau ALI**<br><br>**Cam Gweithredu: SB i ystyried y posibilrwydd o ffrydio cynhadledd 2018 yn fyw a gadael i'r Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol wybod.** |
| **11** | **Unrhyw Fater Arall** | |
| | • Soniodd VD am ddefnyddio Mynegai Llefydd Llewyrchus yn ardal Gwent, eu defnydd o'r offeryn Happiness Pulse, ochr yn ochr ag ymchwil arall yn seiliedig ar y dyfodol a ddefnyddiwyd mewn asesiadau Llesiant a chytunwyd i drafod hyn ymhellach yng nghyfarfod y Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol ym Medi 2018.<br>• Roedd Rheoliadau ar gyfer Cymru yn dilyn Deddf Economi Digidol 2018 wedi'u pasio a oedd yn enwi cyrff cyhoeddus a allai rannu data i ddibenion darparu gwasanaeth cyhoeddus.<br>• Lansiwyd Comisiwn newydd ar gyfer data geo-ofodol yn y DU i ddatgloi data i'w ddefnyddio mewn GIS.<br>• Mae e-bost ar y ffordd i atgoffa aelodau'r Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol o'n defnydd o'u data a bydd yn | **Cam Gweithredu: Ychwanegu defnydd Gwent o Fynegai Llefydd Llewyrchus at raglen nesaf y Cyd-bwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol** |

| | | |
|---|---|---|
| | cynnwys ymgais i lanhau'r rhestr ddosbarthu.<br>• Efallai bydd angen pwyllgor llywio ar y Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol gan ymrwymo i gynnal un delegynhadledd y flwyddyn. Mae'r Uned Ddata'n fodlon cefnogi hyn. | |

| | **Crynodeb o'r Pwyntiau Gweithredu** | **Statws** |
|---|---|---|
| **1.** | **Ysgrifenyddiaeth i anfon diweddariad blaenorol yr Uned Ddata/Data Cymru unwaith eto** | **Cwblhau** |
| **2.** | **JT i gysylltu â grŵp ymchwil twristiaeth i ofyn iddynt wneud nodyn i'r Cyd-bwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol ar y gwaith y maent yn ei wneud** | |
| **3.** | **SL i adrodd yn ôl i'r grŵp am y cyfarfod anghenion o ran tai a'r galw am dai yng nghyfarfod nesaf Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol** | |
| **4.** | **SL i baratoi Log Materion Cyfrifiad ar gyfer defnyddwyr Cyfrifiad Cymru a cheisio mewnbwn gan Gydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol a grwpiau cyswllt eraill** | |
| **5.** | **Bydd GJ yn anfon diweddariad ar yr ymateb i'r ymgynghoriad ar newidiadau i gyhoeddi'n rheolaidd ddata am asesiadau athrawon ysgol sy'n is na'r lefel genedlaethol a gwahodd rhywun i'r cyfarfod i drafod hyn** | **Gellir dod o hyd i hyn yma.** |
| **6.** | **JC i ddiweddaru ynghylch cynnydd y teclyn mewn cyfarfod yn y dyfodol** | |
| **7.** | **AS i anfon copi PDF o ddatblygiad dangosyddion at y grŵp** | |
| **8.** | **AS eisiau adborth ar sut y defnyddir y mynegai a sut y gellid ei wella** | |
| **9.** | **MP i anfon cyswllt i'r Cynllun Gweithredu Economaidd** | |
| **10.** | **Gwahoddwyd Aelodau i ddarparu unrhyw straeon da am ddefnyddio data'r Cyfrifiad yn y gorffennol i ONS** | |
| **11.** | **SB i ddarparu copi o lythyrau i Awdurdodau Lleol ynghylch Swyddogion Cyswllt Cyfrifiad i'w dosbarthu i aelodau ALI** | |
| **12.** | **SB i ystyried y posibilrwydd o ffrydio cynhadledd 2018 yn fyw a gadael i'r Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol wybod** | |
| **13.** | **Ychwanegu defnydd Gwent o Fynegai Llefydd Llewyrchus at raglen nesaf y Cydbwyllgor ymgynghorol Ystadegau Gwladol** | |